## ATODLEN 1

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**31.** Brics glo Stoveheat Premium, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) sy'n cynnwys llwch glo caled (sef rhyw 65 i 85 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef rhyw 20 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr triagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 300°C;

(c) sy'n frics glo siâp ofoidau heb eu marcio ac sy'n pwyso 40 gram ar gyfartaledd fesul bricsen; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 2 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.